

# Cynnwys

<b>Tabl o Ddiwygiadau a Wnaed</b>		<b>ii</b>
<b>Rhagair</b>		<b>iii</b>
<b>Pennod 1</b>	<b>Canllawiau Cynllunio Gwasanaeth</b>	<b>1-1 – 1-8</b>
<b>Pennod 2</b>	<b>Y Safon</b>	<b>2-1 – 2-30</b>
<b>Pennod 3</b>	<b>Ffurflen Fonitro</b>	<b>3-1 – 3-45</b>
<b>Pennod 4</b>	<b>Canllawiau'r Ffurflen Fonitro</b>	<b>4-1 – 4-17</b>
<b>Pennod 5</b>	<b>Cynllun Archwilio</b>	<b>5-1 – 5-10</b>

## Pennod 2: Y Safon

### Cyflwyniad

Mae'r canllawiau hyn yn cyflwyno dyletswyddau'r gwasanaethau gorfodi cyfraith bwyd sy'n codi o ddeddfwriaeth a chanllawiau perthnasol sy'n bodoli ar hyn o bryd, ac mae'n amlinellu'r anghenion ar gyfer cynllunio, rheoli a darparu gwasanaethau gorfodi cyfraith bwyd awdurdodau lleol.

### Y Safon

#### 1 Cwmpas

Mae'r Safon hon yn manylu ar y trefniadau y dylid eu rhoi ar waith a'u gweithredu gan Awdurdod er mwyn gorfodi deddfwriaeth hylendid bwyd, safonau bwyd, porthiant a bwyd a fewnforir.

Mae'r Safon yn gymwys i'r gweithgareddau hynny y dylid eu cynnwys yng ngwasanaeth bwyd Awdurdod. Mae'r ddeddfwriaeth, y Codau Ymarfer a'r dogfennau eraill y cyfeirir atynt yn y Safon hon wedi eu rhestru yn yr atodiad i'r Safon.

#### 2 Termau a diffiniadau

At ddibenion y Safon hon, defnyddir y termau a'r diffiniadau canlynol.

##### 2.1 Awdurdod

awdurdod lleol â chyfrifoldeb dros naill ai orfodi cyfraith hylendid bwyd, safonau bwyd neu borthiant, neu gyfuniad ohonynt. Mae hyn hefyd yn cynnwys awdurdodau iechyd porthladdoedd ac awdurdodau gyda phwyntiau mynediad ar gyfer bwydydd neu borthiant a fewnforir.

#### 3 Trefn a Rheolaeth

3.1 Bydd yr Awdurdod yn llunio, yn dogfennu ac yn gweithredu cynllun cyflawni gwasanaeth yn unol â'r Canllawiau Cynllunio Gwasanaeth ym Mhennod 1.

3.2 Bydd yr Awdurdod yn cynnal adolygiad perfformiad o leiaf unwaith y flwyddyn, yn seiliedig ar y cynllun cyflawni gwasanaeth, a ddogfennwyd ac a gyflwynwyd i'w gymeradwyo gan aelodau priodol.

- 3.3 Ymdrinnir ag unrhyw amrywiad o ran cyflawni'r cynllun cyflawni gwasanaeth yng nghynllun cyflawni gwasanaeth y flwyddyn ganlynol.

#### **4 Adolygu a Diweddarau Polisiâu a Gweithdrefnau a Ddogfennwyd**

- 4.1 Bydd yr Awdurdod yn adolygu'r holl bolisiau a'r gweithdrefnau a ddogfennwyd ar gyfer yr holl weithgaredd gorfodi a gwmpasir yn y Safon hon.

NODER: Fel rheol, dylid gwneud hyn yn rheolaidd, a phryd bynnag y bydd newidiadau i ddeddfwriaeth neu ganllawiau canolog.

- 4.2 Bydd yr Awdurdod yn sefydlu, cynnal a gweithredu system reoli ar gyfer yr holl ddogfennaeth, a all fod ar fformat electronig, yn ymwneud â'i weithgaredd gorfodi. Bydd y system yn sicrhau:
- a) bod copiâu cyfredol o'r dogfennau perthnasol, yn cynnwys deddfwriaeth a chanllawiau, ar gael ym mhob lleoliad perthnasol ar gyfer yr holl staff perthnasol;
  - b) bod pob newid neu ddiwygiad i ddogfennau wedi'u hawdurdodi'n gywir, ac wedi'u cwblhau heb oedi gormodol er mwyn sicrhau eu bod ar gael mewn da bryd; a
  - c) bod dogfennau nad oes iddynt ddefnydd pellach yn cael eu diddymu gan yr Awdurdod.

#### **5 Swyddogion Awdurdodedig**

- 5.1 Bydd yr Awdurdod yn sefydlu, cynnal a gweithredu gweithdrefn ddogfenedig ar gyfer awdurdodi swyddogion yn seiliedig ar eu cymhwysedd ac yn unol â Chod Ymarfer y Ddeddf Diogelwch Bwyd ac unrhyw ganllawiau canolog eraill.
- 5.2 Bydd yr Awdurdod, pan fo'n gyfrifol am orfodi deddfwriaeth hylendid bwyd, safonau bwyd a/neu borthiant, yn penodi swyddog/ion â gwybodaeth arbenigol i fod yn bennaf gyfrifol am y ddeddfwriaeth honno. Pan fo gan yr Awdurdod gyfrifoldebau penodol, er enghraifft ei fod yn bwynt mynediad i'r DU neu fod ganddo sefydliadau cymeradwy dan ddeddfwriaeth cynnyrch penodol, dylai sicrhau bod gan swyddogion y wybodaeth arbenigol angenrheidiol.
- 5.3 Bydd yr Awdurdod yn penodi nifer digonol o swyddogion awdurdodedig i gyflawni'r gwaith a ddisgrifir yn y cynllun cyflawni gwasanaeth a gymeradwywyd, a byddant yn meddu ar gymwysterau, hyfforddiant a phrofiad addas yn gyson â'u hawdurdod a'u dyletswyddau yn unol â Chod Ymarfer perthnasol y Ddeddf Diogelwch Bwyd.

- 5.4 Bydd yr Awdurdod yn sefydlu, cynnal a gweithredu rhaglen hyfforddiant ddogfenedig. Bydd yr Awdurdod yn sicrhau hyfforddiant i bob swyddog awdurdodedig a'r staff cefnogi perthnasol ar agweddau technegol a gweinyddol eu dyletswyddau. Pan fo hyfforddiant ar gael bydd manylion cynnwys ac amcanion y cwrs, ei hyd ac unrhyw asesiad o'r hyfforddiant hwnnw, yn cael eu cadw ar ffeil. Bydd yr hyfforddiant a roddir yn dibynnu ar allu, cymwysterau, profiad a chyfrifoldeb yr unigolion dan sylw a lefel eu hawdurdod.
- 5.5 Bydd cofnod o gymwysterau academaidd neu gymwysterau eraill, hyfforddiant a phrofiad perthnasol pob swyddog awdurdodedig yn cael eu cadw gan yr Awdurdod yn unol â Chod Ymarfer perthnasol y Ddeddf Diogelwch Bwyd.

## 6 Adnoddau ac Offer

- 6.1 Bydd yr Awdurdod yn caniatáu defnyddio'r adnoddau a'r offer angenrheidiol fel y gellir cyflawni'r holl weithgareddau sy'n gysylltiedig â'r gwasanaeth.
- 6.2 Bydd yr Awdurdod yn sefydlu, cynnal a gweithredu gweithdrefn ddogfenedig er mwyn sicrhau fod offer yn cael eu cynnal a'u cadw'n iawn, a'u tynnu o wasanaeth os yn ddiffygiol.
- 6.3 Cofnodir gwybodaeth berthnasol parthed yr offer.

NODER: Fel arfer, dylai hyn gynnwys nodi'r offer, statws graddnodi a chanlyniadau unrhyw wiriadau o fewn y gwasanaeth.

- 6.4 Bydd unrhyw becyn meddalwedd cyfrifiadurol neu ddull arall o gofnodi gweinyddol a ddefnyddir gan yr Awdurdod yn gallu darparu unrhyw wybodaeth, o fewn rheswm, y gofynnir amdani gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd. Bydd systemau o'r fath yn cael eu gweithredu mewn modd a fydd yn galluogi darparu'r wybodaeth angenrheidiol i'r Asiantaeth.
- 6.5 Bydd yr Awdurdod yn sefydlu, cynnal a gweithredu systemau wrth gefn addas ar gyfer unrhyw gronfeydd data a systemau electronig neu weithdrefnau dogfenedig a gafodd eu cynllunio i leihau'r risg o lygru neu golli gwybodaeth o gronfeydd data. Dylai'r Awdurdod sicrhau bod mesurau diogelwch rhesymol ar waith i atal mynediad a newidiadau gan bobl ddiawdurdod.

## 7 Archwiliadau o Safleoedd Bwyd a Phorthiant

- 7.1 Bydd yr Awdurdod yn cynnal archwiliadau hylendid bwyd, safonau bwyd a phorthiant ar safleoedd yn ei ardal, heb fod yn llai rheolaidd na'r hyn a bennir gan y system graddio archwiliadau a amlinellir yn y ddeddfwriaeth berthnasol, Codau Ymarfer y Ddeddf Diogelwch Bwyd neu ganllawiau eraill a ddarperir yn ganolog.

- 7.2 Bydd yr Awdurdod yn archwilio, yn cymeradwyo, yn cofrestru ac yn trwyddedu'r safleoedd perthnasol yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol, Cod Ymarfer Deddf Diogelwch Bwyd, canllawiau a ddarperir yn ganolog a pholisïau a gweithdrefnau'r Awdurdod.

NODER: Mae safleoedd yn cynnwys unrhyw long neu awyren o ddisgrifiad a nodwyd yn yr atodlen i Orchymyn Diogelwch Bwyd (Llongau ac Awyrennau) (Lloegr a'r Alban) 2003 a Gorchymyn Diogelwch Bwyd (Llongau ac Awyrennau) (Cymru) 2003 a Gorchymyn Diogelwch Bwyd (Llongau ac Awyrennau) (Gogledd Iwerddon) 2004.

- 7.3 Bydd yr Awdurdod yn asesu safleoedd a systemau yn ei ardal yn nhermau cydymffurfio â'r safonau cyfreithiol penodedig.

NODER: Wrth asesu cydymffurfiaeth, bydd yr Awdurdod yn rhoi ystyriaeth deg i unrhyw Ganllawiau Diwydiannol perthnasol ar gyfer Arferion Hylendid Da, gan nodi unrhyw ganllawiau canolog perthnasol arall a ddarperir yn ganolog.

Bydd yr Awdurdod yn cymryd camau priodol yn erbyn unrhyw ddiffyg cydymffurfio a ganfyddir, yn unol â pholisi gorfodi'r Awdurdod.

- 7.4 Bydd yr Awdurdod yn sefydlu, cynnal a gweithredu gweithdrefnau archwilio dogfenedig ar ystod yr archwiliadau a gynhelir.
- 7.5 Caiff sylwadau a wneir a/neu ddata a gesglir yn ystod archwiliad eu cofnodi yn ddiymdroi i osgoi colli gwybodaeth berthnasol. Rhaid i gofnodion cyfredol swyddogion fod yn ddarllenadwy, a chael eu storio mewn modd fel y gellir dod o hyd iddynt.

## **8 Cwynion am Fwyd, Porthiant a Safleoedd Bwyd**

- 8.1 Bydd yr Awdurdod yn sefydlu, cynnal a gweithredu polisi a gweithdrefn(au) dogfenedig mewn perthynas â chwynion am fwyd a phorthiant sy'n deillio o'r DU, a'r bwydydd a phorthiant sy'n deillio o Aelod-Wladwriaethau eraill yr Undeb Ewropeaidd, neu o drydydd gwledydd eraill ac mewn perthynas â chwynion yn erbyn safleoedd bwyd. Dylai gweithdrefnau gwmpasu unrhyw drefniadau cyfeirio i awdurdodau mewndirol a/neu awdurdodau sy'n gyfrifol am reoli bwyd a phorthiant a fewnforir yn y pwynt mynediad i'r DU.
- 8.2 Dylai'r Awdurdod archwilio cwynion a dderbynnir yn unol â Chod Ymarfer perthnasol y Ddeddf Diogelwch Bwyd, canllawiau a ddarperir yn ganolog a pholisïau a gweithdrefnau'r Awdurdod.
- 8.3 Bydd yr Awdurdod yn cymryd y camau priodol i ymdrin ag unrhyw gwynion a dderbynnir yn unol â pholisi gorfodi'r Awdurdod.

## 9 Egwyddor Awdurdod Cartref

- 9.1 Bydd yr Awdurdod yn rhoi cyngor i fusnesau ar gydymffurfiaeth gyfreithiol pan fydd yn gweithredu fel awdurdod cartref a/neu wreiddiol.
- 9.2 Bydd yr Awdurdod yn rhoi sylw i unrhyw wybodaeth neu gyngor a gafodd trwy gydweithredu ag awdurdodau cartref a/neu wreiddiol.
- 9.3 Bydd yr Awdurdod yn cysylltu ag awdurdod cartref a/neu wreiddiol busnes yr archwiliwyd ei fwyd/borthiant a/neu safle ac yn nodi achosion sy'n gysylltiedig â thorri polisiau a gweithdrefnau canolog y busnes, neu sy'n ymddangos eu bod yn gysylltiedig.
- 9.4 Yn ystod archwiliad i gŵyn, bydd yr Awdurdod yn cysylltu â'r awdurdod cartref a/neu wreiddiol ynglŷn â materion sydd, neu a all fod, yn gysylltiedig â pholisiau a gweithdrefnau canolog y busnes.
- 9.5 Bydd yr Awdurdod yn cysylltu ag awdurdod cartref a/neu wreiddiol busnes mewn perthynas ag unrhyw samplau anfoddfaol sydd, neu a all fod, yn gysylltiedig â pholisiau a gweithdrefnau canolog y busnes.
- 9.6 Bydd yr Awdurdod, wedi iddo ddechrau cysylltu ag unrhyw awdurdod cartref/gwreiddiol, yn hysbysu'r awdurdod hwnnw o'r canlyniad.

## 10 Cyngor i Fusnesau

- 10.1 Bydd yr Awdurdod yn gweithio gyda busnesau i'w cynorthwyo i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth bwyd a phorthiant. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys:
  - cynnal cyrsiau/seminarau hyfforddi;
  - cyngor parod yn ystod ymweliadau ac archwiliadau rheolaidd;
  - darparu llinellau cyngor;
  - Taflenni Gwybodaeth Busnes;
  - ymateb i ymholiadau; a
  - thrafodaeth gyda busnes trwy bartneriaethau busnes lleol neu fforymau tebyg.

## 11 Cronfa Ddata Safleoedd Bwyd a Phorthiant

- 11.1 Bydd yr Awdurdod yn sefydlu, cynnal a gweithredu cronfa ddata o'r safleoedd bwyd a phorthiant yn ei ardal.

- 11.2 Bydd yr Awdurdod yn sefydlu, cynnal a gweithredu gweithdrefn ddogfenedig er mwyn sicrhau bod y gronfa ddata safleoedd bwyd a phorthiant yn gywir ac yn gyfredol.

## 12 Archwilio a Samplu Bwyd a Phorthiant

- 12.1 Bydd yr Awdurdod yn sicrhau bod bwyd a phorthiant yn cael eu harchwilio yn unol â deddfwriaeth berthnasol, Codau Ymarfer y Ddeddf Diogelwch Bwyd a chanllaw a gyhoeddir yn ganolog. Bydd hefyd yn sicrhau bod bwyd a bwydydd anifeiliaid yn cwrdd â safonau cyfreithiol penodedig.
- 12.2 Bydd yr Awdurdod yn cymryd y camau priodol i ymdrin ag unrhyw ddiffyg cydymffurfio a nodir yn unol â pholisi gorfodi'r Awdurdod.
- 12.3 Bydd yr Awdurdod yn sefydlu, cynnal a gweithredu gweithdrefnau wedi'u dogfennu ar gyfer archwilio bwyd a phorthiant.
- 12.4 Bydd yr Awdurdod yn sefydlu, cynnal a gweithredu polisi a rhaglen samplu dogfenedig a fydd yn gydnaws ag unrhyw ganllawiau a gyhoeddir yn ganolog neu ganllawiau perthnasol, a Chod Ymarfer perthnasol y Ddeddf Diogelwch Bwyd a bydd yn cynnwys cyfeiriad at ei ddull o weithredu unrhyw raglen samplu genedlaethol berthnasol a gydlynir yn ganolog gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd.

NODER: Dylai'r Awdurdod ystyried natur ei sefydliadau bwyd a phorthiant, a lle bo'n gymwys natur bwyd a phorthiant a fewnforir, a hefyd unrhyw raglen samplu berthnasol a gydlynir yn ganolog gan LACORS a'r HPA; gan SFELC (Pwyllgor Cysylltu Gorfodaeth Bwyd yr Alban), yn yr Alban; Fforwm Microbiolegol Bwyd Cymru a Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru yng Nghymru, a'r Labordy Iechyd Cenedlaethol yng Ngogledd Iwerddon.

- 12.5 Bydd yr Awdurdod yn sefydlu, cynnal a gweithredu gweithdrefnau dogfenedig ar gyfer caffael neu brynu samplau, parhad tystiolaeth, ac atal dirywiad neu niwed i samplau tra'u bod o dan ei reolaeth yn unol â Chod Ymarfer perthnasol y Ddeddf Diogelwch Bwyd a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog.
- 12.6 Bydd yr Awdurdod yn samplu yn unol â'i bolisi, ei weithdrefnau a'i raglen samplu dogfenedig.
- 12.7 Bydd yr Awdurdod yn cymryd camau gweithredu priodol yn unol â'i bolisi gorfodi lle nad yw canlyniadau samplau yn cael eu hystyried yn foddhaol.
- 12.8 Bydd yr Awdurdod, lle bo'n briodol, yn sicrhau bod Dadansoddwyr Cyhoeddus a/neu Ddadansoddwyr Amaethyddol yn cael eu penodi i gynnal archwiliadau a dadansoddiadau o samplau bwyd a phorthiant. Wrth wneud

y penodiadau hyn, bodlonir yr holl ofynion cyfreithiol perthnasol a Chodau Ymarfer y Ddeddf Diogelwch Bwyd. Dylid cyflwyno'r holl samplau i'w harchwilio i'r Archwiliwr Bwyd mewn labordy a achredwyd ar gyfer archwilio.

### **13 Rheoli ac Ymchwilio i Achosion o Glefydau Heintus sy'n Gysylltiedig â Bwyd**

- 13.1 Bydd yr Awdurdod yn sefydlu, cynnal a gweithredu gweithdrefn ddogfenedig wedi ei datblygu ar y cyd gyda'r holl gyrff perthnasol parthed rheoli achosion o glefydau heintus sy'n gysylltiedig â bwyd yn unol â chanllawiau canolog perthnasol.
- 13.2 Bydd yr Awdurdodau yn sefydlu, cynnal a gweithredu gweithdrefn ddogfenedig wedi ei datblygu yn unol â chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog, ar y cyd gyda'r holl gyrff perthnasol parthed ymchwilio i hysbysiadau o glefydau heintus sy'n gysylltiedig â bwyd.
- 13.3 Dylid cadw'r holl gofnodion sy'n ymwneud â rheoli ac ymchwilio i achosion o glefydau heintus sy'n gysylltiedig â bwyd am o leiaf 6 mlynedd.

### **14 Achosion Diogelwch Bwyd**

- 14.1 Bydd yr Awdurdod yn sefydlu, cynnal a gweithredu gweithdrefn ddogfenedig i ddechrau ac ymateb i rybuddion perygl bwyd, yn unol â Chod Ymarfer perthnasol y Ddeddf Diogelwch Bwyd. Yn achos pwyntiau mynediad y DU, dylai'r weithdrefn hon hefyd fynd i'r afael â hysbysiadau RASFF a phenderfyniadau perthnasol gan y CE. Bydd y weithdrefn hefyd yn cynnwys trefniadau cysylltu y tu allan i oriau arferol.
- 14.2 Bydd yr Awdurdod yn cynnal system gyfrifiadurol sy'n gallu derbyn rhybuddion perygl bwyd.
- 14.3 Bydd yr Awdurdod yn dogfennu ei ymateb i, a chanlyniad, pob rhybudd perygl bwyd.
- 14.4 Bydd yr Awdurdod yn sefydlu, cynnal a gweithredu gweithdrefn ddogfenedig ar gyfer ymateb i ddigwyddiadau diogelwch bwyd.

NODER: Gellir hysbysu digwyddiadau diogelwch bwyd fel rhan o system rybuddio perygl bwyd (gweler 14.1 uchod) neu fel hysbysiad ar wahân gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd.

- 14.5 Bydd yr Awdurdod yn hysbysu'r Asiantaeth Safonau Bwyd o unrhyw ddigwyddiad lleol difrifol, neu o broblem diogelwch bwyd ehangach, yn unol â Chod Ymarfer y Ddeddf Diogelwch Bwyd neu ddeddfwriaeth porthiant.

## 15 Gorfodaeth

- 15.1 Bydd yr Awdurdod yn sefydlu, cynnal a gweithredu polisi gorfodi dogfenedig, yn unol â Chodau Ymarfer perthnasol y Ddeddf Diogelwch Bwyd, y Concordat Gorfodi a chanllawiau swyddogol eraill, a gymeradwywyd gan y fforwm Aelod Awdurdodau Lleol perthnasol.

NODER: Dylai'r polisi gorfodi neu grynodedb cywir ohono fod ar gael yn hawdd i'r cyhoedd a busnesau bwyd yn ardal yr Awdurdod.

- 15.2 Bydd yr Awdurdod yn sefydlu, cynnal a gweithredu gweithdrefnau wedi'u dogfennu ar gyfer camau dilynol a gorfodi yn unol â Chodau Ymarfer y Ddeddf Diogelwch Bwyd a chanllawiau swyddogol perthnasol.
- 15.3 Bydd yr Awdurdod yn gorfodi cyfraith bwyd yn unol â Chodau Ymarfer perthnasol y Ddeddf Diogelwch Bwyd a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog.
- 15.4 Caiff pob penderfyniad ar gamau gorfodi ei wneud yn dilyn ystyriaeth o bolisi gorfodi yr Awdurdod. Caiff y rhesymau dros weithredu'n wahanol i'r camau a nodir yn y polisi gorfodi eu dogfennu.

## 16 Cofnodion ac Adroddiadau Archwilio

- 16.1 Bydd yr Awdurdod yn cadw cofnodion cyfredol a chywir mewn modd y gellir cael gafael arnynt am bob safle bwyd a phorthiant yn ei ardal ac archwiliadau perthnasol ar fwyd a phorthiant a fewnforir, yn unol â Chodau Ymarfer y Ddeddf Diogelwch Bwyd a chanllawiau canolog. Bydd y cofnodion hyn yn cynnwys adroddiad ar bob archwiliad, ymweliad a gorfodaeth i gydymffurfio ag anghenion cyfreithiol a wnaed gan y swyddog awdurdodedig, manylion ar gamau a gymerwyd lle nad oedd cydymffurfio, manylion am unrhyw gamau gorfodi, canlyniadau unrhyw samplu, manylion am unrhyw gwynion ac unrhyw gamau a gymerwyd mewn ymateb, a hefyd gwybodaeth berthnasol am gofrestru, cymeradwyo a thrwyddedu bwyd a/neu borthiant.
- 16.2 Dylid cadw pob cofnod am o leiaf 6 mlynedd, oni bai eu bod wedi'u marcio i'w cadw am gyfnod hwy oherwydd achos cyfreithiol neu adolygiad Ombwdsman Llywodraeth Leol.

## 17 Cwynion ynglŷn â'r Gwasanaeth

- 17.1 Bydd yr Awdurdod yn sefydlu, cynnal a gweithredu gweithdrefn gwynion ddogfenedig i ymateb i gwynion ynglŷn â'r gwasanaeth, a fydd ar gael i'r cyhoedd a'r busnesau bwyd a phorthiant yn ei ardal.
- 17.2 Bydd yr Awdurdod yn ymchwilio i gwynion a dderbynnir yn unol â'r canllawiau perthnasol a gyhoeddir yn ganolog.

- 17.3 Cofnodir pob cwyn a dderbynnir ynghyd â'r camau a gymerwyd gan yr Awdurdod mewn ymateb iddynt.

## 18 Cysylltu â Chyrff Eraill

- 18.1 Bydd yr Awdurdod yn sefydlu trefniadau cysylltu gydag awdurdodau cyfagos ac unrhyw gorff perthnasol arall, gyda'r bwriad o hwyluso gorfodaeth gyson yn unol â Chod Ymarfer perthnasol y Ddeddf Diogelwch Bwyd a chanllawiau canolog.

## 19 Monitro Mewnol

- 19.1 Bydd yr Awdurdod yn sefydlu, cynnal a gweithredu gweithdrefnau monitro mewnol dogfenedig yn unol â Chod Ymarfer perthnasol y Ddeddf Diogelwch Bwyd a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog.
- 19.2 Bydd yr Awdurdod yn gwirio'i gydymffurfiaeth â'r Safon hon, y ddeddfwriaeth berthnasol, Codau Ymarfer perthnasol y Ddeddf Diogelwch Bwyd, canllawiau perthnasol a gyhoeddir yn ganolog a pholisïau a gweithdrefnau dogfenedig gan yr Awdurdod ei hun.
- 19.3 Dylid cofnodi pob monitro mewnol a'i gadw am o leiaf 2 flynedd.

## 20 Adolygiad Trydydd Parti neu Gydweithwyr

- 20.1 Bydd yr Awdurdod yn cymryd rhan mewn unrhyw broses adolygu addas yn erbyn y Safon gan drydydd parti neu gydweithwyr.

## 21 Hybu Diogelwch a Safonau Bwyd a Phorthiant

- 21.1 Bydd yr Awdurdod yn hybu safonau diogelwch bwyd a phorthiant. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys:
- gwobrau neu gystadlaethau diogelwch a safonau bwyd;
  - cymryd rhan mewn ymgyrchoedd cyfun dros ddiogelwch a safonau bwyd a phorthiant;
  - partneriaethau gyda chyrff gwirfoddol, y gymuned ac asiantaethau eraill gyda'r bwriad o dargedu grwpiau penodol;
  - targedu a lledaenu gwybodaeth ar bynciau diogelwch a safonau bwyd a phorthiant;

- cefnogi hyfforddiant ar ddiogelwch a safonau bwyd mewn ysgolion a cholegau;
- codi ymwybyddiaeth o fesurau rheoli bwyd a fewnforir.

21.2 Bydd yr Awdurdod yn cadw cofnodion o'i waith hybu diogelwch a safonau bwyd a phorthiant.

## Atodiad

### Deddfwriaeth

Mae'r Atodiad hwn yn darparu rhestr o ganllawiau swyddogol yn unig. Fodd bynnag, mae gwybodaeth am ddeddfwriaeth bwyd ar gael yn 'Food Law' a 'Food Law in Scotland'. Mae 'Food Law' ar gael ar wefan yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn [www.food.gov.uk/enforcement/foodlaw](http://www.food.gov.uk/enforcement/foodlaw) ac yn cael ei ddiweddarau'n rheolaidd. Mae 'Food Law in Scotland' ar y wefan hefyd. Cynhyrchwyd y dogfennau hyn fel canllawiau cyffredinol ac ni ellir eu cymryd fel dehongliad o'r gyfraith.

Gall awdurdodau ddiweddarau'r rhestr o ddeddfwriaeth o Restr Wythnosol y Llyfrfa, ymysg llyfyrdd eraill, neu o werslyfrau cyfeirio cyfreithiol safonol.

### Codau Ymarfer Deddf Diogelwch Bwyd 1990

- Rhif 1 Responsibility for Enforcement of the Food Safety Act 1990. Cyhoeddwyd 1991. ISBN 0-11-321354-9.
- Rhif 2 Legal Matters. Cyhoeddwyd 1991. ISBN 0-11-321353-0.
- Rhif 3 Inspection Procedures – General. Cyhoeddwyd 1991. ISBN 0-11-321355-7.
- Rhif 4 Inspection, Detention and Seizure of Suspect Food. Cyhoeddwyd 1991. ISBN 0-11-321350-6.
- Rhif 5 The Use of Improvement Notices (Diwygiwyd 1994). ISBN 0-11-321777-3.
- Rhif 6 Prohibition Procedures. ISBN 0-11-321349-2.
- Rhif 7 Sampling for Analysis or Examination (Diwygiwyd Hydref 2000).\*
- Rhif 8 Food Standards Inspections (Diwygiwyd Gorffennaf 1996).\*
- Rhif 9 Food Hygiene Inspections (Diwygiwyd Hydref 2000).\*
- Rhif 10 Enforcement of the Temperature Control Requirements of the Food Hygiene Regulations. Cyhoeddwyd 1991. ISBN 0-11-321465-0.
- Rhif 11 Enforcement of the Food Premises (Registration) Regulations. Cyhoeddwyd 1991. ISBN 0-11-321478-2.
- Rhif 12 Quick-Frozen Foodstuffs Division of Enforcement Responsibilities: enforcement of temperature monitoring and temperature measurement (Diwygiwyd Chwefror 1994). ISBN 0-11-321793-5.

- Rhif 13 Enforcement of the Food Safety Act 1990 in relation to Crown Premises. Cyhoeddwyd 1992. ISBN 0-11-321500-2.
- Rhif 14 Enforcement of the Food Safety (Live Bivalve Molluscs and Other Shellfish) Regulations 1992. Cyhoeddwyd 1994. ISBN 0-11-321695-5.
- Rhif 15 Enforcement of the Food Safety (Fishery Products) Regulations 1992 and associated Regulations. Cyhoeddwyd 1994. ISBN 0-11-321798-6.
- Rhif 16 Enforcement of the Food Safety Act 1990 in relation to the Food Hazard Warning System (Diwygiwyd Awst 1997).\*
- Rhif 17 Enforcement of the Meat Products (Hygiene) Regulations 1994. Cyhoeddwyd 1994. ISBN 0-11-321880-X.
- Rhif 18 Enforcement of the Dairy Product (Hygiene) Regulations 1995 and the Dairy Product (Hygiene) (Scotland) Regulations 1995. Cyhoeddwyd 1995. ISBN 0-11-321957-1.
- Rhif 19 Qualifications and Experience of Authorised Officers (Diwygiwyd Hydref 2000).\*
- Rhif 20 Exchange of Information between Member States of the EU on routine Food Control Matters. Cyhoeddwyd 1996.\*

Efallai bod modd cael copiâu o'r Codau Ymarfer gan y Llyfrfa o hyd.

\*Codau ar gael gan Gangen Cefnogaeth Broffesiynol Adran Gorfodi Awdurdodau Lleol yr Asiantaeth (LAED) yn unig. Mae fersiynau'r Alban o God 7, 9 ac 19 ar gael gan ASB yr Alban (gweler tudalen 2-19 am fanylion cysylltu).

### **Codau Ymarfer a gyhoeddwyd dan Orchymyn Diogelwch Bwyd (Gogledd Iwerddon) 1991**

- Rhif 1 Legal Matters. ISBN 0-337-07627-8.
- Rhif 2 Inspection Procedures – General. ISBN 0-337-07629-4.
- Rhif 3 Inspection, Detention and Seizure of Suspect Food. ISBN 0-337-07632-4.
- Rhif 4 The Use of Improvement Notices (Diwygiwyd). ISBN 0-337-07886-6.
- Rhif 5 Prohibition Procedures. ISBN 0-337-07633-2.
- Rhif 6 Sampling for Analysis or Examination (Diwygiwyd Tachwedd 2000).\*
- Rhif 7 Food Standards Inspections.\*

- Rhif 8 Food Hygiene Inspections (Diwygiwyd Tachwedd 2000).\*
- Rhif 9 Enforcement of the Temperature Control Requirements of the Food Hygiene Regulations. ISBN 0-337-07673-1.
- Rhif 10 Enforcement of the Food Premises (Registration) Regulations. ISBN 0-337-07707-X.
- Rhif 11 Enforcement of the Food Safety Act 1990 in relation to Crown Premises. ISBN 0-337-07713-4.
- Rhif 12 Enforcement of the Food Safety (Live Bivalve Molluscs and Other Shellfish) Regulations (Northern Ireland) 1993. ISBN 0-337-07877-7.
- Rhif 13 Enforcement of the Food Safety (Fishery Products) Regulations (Northern Ireland) 1993. ISBN 0-337-07927-7.
- Rhif 14 Enforcement of the Food Safety (NI) Order 1991 in relation to the Food Hazard Warning System.\*
- Rhif 15 Quick-Frozen Foodstuffs. Enforcement of Temperature Monitoring and Temperature Measurement. ISBN 0-337-07928-5.
- Rhif 16 Enforcement of the Dairy Products (Hygiene) Regulations (NI) 1995. ISBN 0-337-37018-4.
- Rhif 17 Qualifications and Experience of Authorised Officers and Experts (Diwygiwyd Tachwedd 2000).\*
- Rhif 18 Exchange of information between Member States of the EU on routine Food Control Matters.\*

### **Canllawiau eraill y Llywodraeth ar Ddulliau Gorfodi**

#### *Adchwanegion*

Food Additives Legislation: Guidance Notes – cysylltwch â Changen 4 yr Adran Diogelwch Cemegol a Gwenwyneg (CST)

The Sweeteners in Food (Amendment) (England) Regulations 2003 – Guidance Notes – cysylltwch â Changen 4 yr Adran Diogelwch Cemegol a Gwenwyneg (CST).

#### *Porthiant*

Guidance on the Approval and Registration of Establishments and Intermediaries Operating in the Animal Feedstuffs Sector – cysylltwch ag Uned Porthiant yr Adran Difwynwyr Cemegol a Phorthiant (CCAFD)

Labelling of Feedingstuffs, Additives and Premixtures. Notes and Points on Approval and Registration Numbers. Cyhoeddwyd Tachwedd 2001 – cysylltwch ag Uned Porthiant, CCAFD

Labelling and Other Requirements for Feed Materials (under the Feeding Stuffs Regulation 2000) – cysylltwch ag Uned Porthiant, CCAFD

### *Trwyddedu Siopau Cig*

Guidance Notes – The Food Safety (General Food Hygiene) (Butchers' Shops) Amendment Regulations 2000. Cyhoeddwyd Mai 2000 – cysylltwch â Changen A yr Adran Diogelwch Microbiolegol MSD

Supplementary Guidance Notes – The Food Safety (General Food Hygiene) (Butchers' Shops) Amendment Regulations 2000. Cyhoeddwyd 15 Medi 2000 – cysylltwch â Changen A, MSD

### *Cynhyrchion Llaeth*

Guidance notes to be read in conjunction with Code of Practice No.18 on Enforcement of the Dairy Product (Hygiene) Regulations 1995 a Dairy Product (Hygiene) (Scotland) Regulations 1995 – cysylltwch â Changen B, MSD

### *Cynhyrchion Pysgodfeydd a Physgod Cregyn Byw*

Guidance on Fishery Products and Live Shellfish – cysylltwch â Changen Cefnogi Technegol – Hylendid, LAED

### *Hylendid Cyffredinol*

A guide to food hazards and your business – Identifying and controlling potential food hazards – cysylltwch â Changen A, MSD

The Food Safety (General Food Hygiene) Regulations 1995 – Guidance on the Regulations – cysylltwch â Changen A, MSD

Guidance on the Food Safety (Temperature) Control Regulations 1995 – cysylltwch â Changen A, MSD

### *Labelu*

'What foods should carry a 'Use By' Date?' – Guidance Notes – cysylltwch â Changen Polisi, Hawliadau a Hysbysebu Labelu, FLS

The Fish Labelling Regulations 2003 – Guidance Notes for England, Scotland, Wales and Northern Ireland – cysylltwch â Changen Safonau a Dilysrwydd, FLS

Labelling and Composition of Meat Products – Guidance Notes (September 2003) – cysylltwch â Changen Safonau a Dilysrwydd, FLS

The Meat Products Regulations 2003 – Summary Guidance Notes for Butchers – cysylltwch â Changen Safonau a Dilysrwydd, FLS.

The Meat Products Regulations 2003 – Summary Guidance Notes for Bakers – cysylltwch â Changen Safonau a Dilysrwydd, FLS.

The Cocoa and Chocolate Products Regulations – Guidance Notes (August 2003) – cysylltwch â Changen Safonau a Dilysrwydd, FLS.

The Jam and Similar Products Regulations 2003 – Guidance Notes – cysylltwch â Changen Safonau a Dilysrwydd, FLS.

The Honey Regulations 2003 – Guidance Notes – cysylltwch â Changen Safonau a Dilysrwydd, FLS.

The Specified Sugar Products Regulations – Guidance Notes (July 2003) – cysylltwch â Changen Safonau a Dilysrwydd, FLS.

Use of the Name, “Basmati” Rice – Guidance Notes (February 2003) cysylltwch â Changen Safonau a Dilysrwydd, FLS.

The Food (Lot Marking) Regulations 1996 – Guidance notes – cysylltwch â Changen Polisi, Hawliadau a Hysbysebu Labelu, FLS

The Food Labelling Regulations 1996 – Guidance notes – cysylltwch â Changen Polisi, Hawliadau a Hysbysebu Labelu, FLS

The Food Labelling Regulations 1996 – Guidance notes on Quantitative Ingredient Declarations (‘QUID’) – cysylltwch â Changen Polisi, Hawliadau a Hysbysebu Labelu, FLS

Guidance notes on nutrition labelling – cysylltwch â Changen Polisi, Hawliadau a Hysbysebu Labelu, FLS

Guidelines for the use of Nutrition Claims in Food Labelling and Advertising – cysylltwch â Changen Polisi, Hawliadau a Hysbysebu Labelu, FLS

Guidance Notes on the Labelling of Food Containing Genetically Modified Soya and Maize (PB4447) – cysylltwch â Changen B yr Adran Bwydydd Newydd

Guidance Notes on the Labelling Requirements for Alcoholic Drinks – cysylltwch â Changen Polisi, Hawliadau a Hysbysebu Labelu, FLS

Revisions to Guidance Notes on the Labelling of Food Containing Genetically Modified Soya and Maize – cysylltwch â Changen B yr Adran Bwydydd Newydd

Guidance Notes on Novel Foods and Novel Food Ingredients Legislation – cysylltwch â Changen B yr Adran Bwydydd Newydd

Guidance Notes on Contaminants in Food Regulations 1999 (Aflatoxins) – cysylltwch â Cangen Difwynwyr 1, CCAFD

Guidance Notes on the Labelling of Food Supplements – cysylltwch â Changen Polisi, Hawliadau a Hysbysebu Labelu, FLS

Clear Food Labelling – cysylltwch â Changen Polisi, Hawliadau a Hysbysebu Labelu, FLS

Criteria for the use of the terms Fresh, Pure, Natural etc in Food labelling – cysylltwch â Changen Polisi, Hawliadau a Hysbysebu Labelu, FLS

Food Labelling – Country of Origin – cysylltwch â Changen Polisi, Hawliadau a Hysbysebu Labelu, FLS

Guidance Notes on the Notification of Marketing of food for Particular Nutritional Uses Regulations 2002- cysylltwch â Changen Polisi, Hawliadau a Hysbysebu Labelu, FLS

*Cig a Chynhyrchion Cig, Briwrig a Pharatoadau Cig*

Guidance Note on the Beef Bones (Amendment) (England) Regulations 1999 a Beef Bones Regulations 1997 – cysylltwch â Changen OTM yr Adran BSE

Guidance notes to be read in conjunction with the Food Safety Act 1990 Code of Practice No.17 on the Enforcement of the Meat Products (Hygiene) Regulations 1994 – cysylltwch â Changen Cig Gwyn, MHD

Guidance Notes on the Meat Products (Hygiene) (Amendment) Regulations 1999. Cyhoeddwyd Mawrth 1999 – cysylltwch â Changen Cig Gwyn, MHD

Guidance to Accompany the Meat Products (Hygiene) (Amendment) (England) Regulations 2000, amending Schedule 2, Part IX, Paragraph 2 of the Meat Products (Hygiene) Regulations 1994. Cyhoeddwyd Mawrth 2000, amgaewyd gyda CEHO/00/8 – cysylltwch â Changen Cig Gwyn, MHD

Guidance Notes on (i) the consequential amendments to the Meat Products (Hygiene) Regulations 1994 and the Minced Meat & Meat Preparations (Hygiene) Regulations 1995; and (ii) changes to the Fresh Meat and Poultry Meat etc Regulations, as a result of the Meat (Enhanced Enforcement Powers) (England) Regulations 2000. Cyhoeddwyd yn Chwe/Mawrth 2000 – cysylltwch â (i) Changen Cig Gwyn, MHD; (ii) Cangen Cig Coch MHD Rheoliadau Cig Ffres, Cangen Cig Gwyn MHD Rheoliadau Cig Dofednod

Guidance Notes on the Enforcement of the Minced Meat & Meat Preparations (Hygiene) Regulations 1995 – cysylltwch â Changen Cig Gwyn, MHD

Final Consumer Exemption – Guidance on Take-Aways: cyhoeddwyd 24 November 1995 – cysylltwch â Changen Cig Gwyn, MHD

Guidance Notes on the Gelatine (Intra-Community Trade) (England) Regulations 2001. Cyhoeddwyd 17 Mai 2001 – cysylltwch â Changen Cig Gwyn, MHD

Guidance Notes on the Poultry Meat, Farmed Game Bird and Rabbit Meat (Hygiene and Inspection) (Amendment) (England) Regulations 2001. Cyhoeddwyd 19 Hydref 2001 – cysylltwch â Changen Cig Gwyn, MHD

Guidance Note on Unfit Meat – Changes to Animal By-Products (Identification) Regulations 1995. Cyhoeddwyd 5 Gorffennaf 2002 – cysylltwch â Changen Cig Gwyn, MHD

Guidance Note on The Poultry Meat, Farmed Game Bird and Rabbit Meat (Hygiene and Inspection) (Amendment) (England) Regulations 2001 – Reminder To Exempt Poultry Meat Producers. Cyhoeddwyd 8 Hydref 2002 – cysylltwch â Changen Cig Gwyn, MHD

Guidance Note on The Poultry Meat, Farmed Game Bird Meat and Rabbit Meat (Hygiene and Inspection) (Amendment) (England) Regulations 2001. Cyhoeddwyd 2 Rhagfyr 2002 – cysylltwch â Changen Cig Gwyn, MHD

Guidance Note on Specified Risk Material and other BSE controls – Guidance for local authority enforcement officers in England, Scotland, Wales. Cyhoeddwyd 15 Ebrill 2004 yn Lloegr – Cysylltwch â Changen SRM yr Adran BSE.

Guidance for Local Enforcement Authorities in England on the private slaughter of livestock – Cyhoeddwyd 15 Rhagfyr 2003 – cysylltwch â Changen Cig Coch, MHD.

Guidance Note on Animal By-Products (Identification) (England) No.2 Regulations 2002 – S.I. number 2002/3231 – Cyhoeddwyd 7 Ionawr 2003, daeth o rym ar 1 Ebrill 2003 – cysylltwch â Changen Cig Gwyn, MHD.

Guidance Note on Animal By-Products (Identification) (England) Regulations 2003 – S.I. note 1484 – Cyhoeddwyd 18 Mehefin 2003, daeth i rym ar 1 Gorffennaf 2003 – cysylltwch â Changen Cig Gwyn, MHD.

(Nodwch – mae rhifau ffôn yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn Lloegr ar dudalennau 2-29 – 2-30)

## Canllawiau eraill a gyhoeddwyd yng Ngogledd Iwerddon

Guidance on registration of food premises. (DHSS a NIFLG).

Guidance on 'risk scoring' in COP 8. (NIFLG).

Guidance on 'experience' in COP 17. (NIFLG).

Guidance on the use of minded-to-notices. (DHSS, Rhagfyr 1996).

Draft Guidelines for DCs and DANI for the Approval of Stand-Alone Meat Preparations Establishments etc. (JSG, 1996) – yn cael ei adolygu ar hyn o bryd.

Draft guidance notes for DANI and DCs on the Enforcement of the Minced Meat and Meat Preparations (Hygiene) Regs (NI) 1997. (JSG, Mawrth 1999) – yn cael ei adolygu ar hyn o bryd.

Guidance for enforcement officers on the Egg Products Regulations, etc. (NIFLG Rhifyn 3, Chwefror 1999).

Guidelines for District Councils and DANI on Approval of Meat Product Establishments – as amended. (NIFLG/JSG, Chwefror 2000).

Draft Guidelines on the Application of Council Directive 92/5/EEC to Establishments Producing other Products of Animal Origin (OPOAO). (NIFLG/JSG, Mawrth 1996).

